Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar ddarpariaeth dysgu yn y gwaith

## Grŵp Llandrillo Menai

**Ffordd Llandudno**
**Llandrillo-yn-rhos**
**Bae Colwyn**
**LL28 4HZ**

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2023**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Grŵp Llandrillo Menai

Crëwyd Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai ar ôl uno Coleg Llandrillo a Choleg Menai yn 2012. Ers arolygiad blaenorol Estyn ym mis Tachwedd 2013, mae Hyfforddiant Gogledd Cymru wedi cael ei gaffael gan Grŵp Llandrillo Menai yn 2019. Daeth Grŵp Llandrillo Menai yn ddarparwr arweiniol Llywodraeth Cymru (LlC) ar gyfer cyflwyno rhaglenni prentisiaeth ar ddechrau'r contract newydd yn 2021. Mae'n gweithio gyda rhwydwaith bach o bartneriaid cyflenwi ac is-gontractwyr.

Mae aelodau presennol Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai yn cynnwys Grŵp Llandrillo Menai, Hyfforddiant Arfon Dwyfor, Hyfforddiant Gogledd Cymru, Achieve More Training, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru, Tempdent a Sgil Cymru.

Mae contract presennol Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai ar gyfer cyflwyno rhaglenni prentisiaeth dysgu yn y gwaith yn werth £13.15m yn 2022 i 2023. Mae'r consortiwm yn cyflwyno rhaglenni ledled Gogledd Cymru yn bennaf, gydag ychydig bach o ddarpariaeth yng Ngheredigion.

Mae Consortiwm Grŵp Llandrillo Menai yn cyflwyno prentisiaethau ar draws y sectorau canlynol:

- Amaethyddiaeth a'r Amgylchedd
- Busnes a Rheoli
- Arlwyo a Lletygarwch
- Gwasanaethau Gofal Plant
- Gwasanaethau Adeiladwaith ac Adeiladu
- Diwylliant, y Cyfryngau a Dylunio
- Technoleg Ddigidol
- Ynni
- Peirianneg
- Gwasanaethau Addysg a Gwybodaeth
- Bwyd a Diod
- Gwallt a Harddwch
- Gofal Iechyd
- Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Gwasanaethau Cyfreithiol ac Ariannol
- Gwyddorau Bywyd
- Gwasanaethau Eiddo
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Manwerthu
- Teithio, Twristiaeth a Hamdden

Adeg yr arolygiad, mae tua 2800 o ddysgwyr yn y gwaith gan y consortiwm yn ymgymryd â hyfforddiant ar raglenni prentisiaeth a ariennir gan Lywodraeth Cymru.

## Crynodeb

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gweithio'n hyderus mewn gweithgareddau dysgu un i un, dysgu mewn grŵp a dysgu o bell. Mae eu gwaith ysgrifenedig wedi'i gyflwyno'n dda ac o safon briodol i'w rhaglen brentisiaeth. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol cryf ac yn cymhwyso'r rhain yn dda ar draws ystod eang o weithgareddau.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda ar draws ystod o weithgareddau dysgu, gan gynnwys defnyddio platfformau dysgu digidol a phortffolios electronig. Maent yn ymwybodol o'r cynnydd a wnânt ac yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i gyflawni eu fframwaith prentisiaeth. Mae cyfraddau llwyddiant yn amrywio gormod ar draws meysydd dysgu, ac mae gormod o ddysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu prentisiaethau.

Nid yw dysgwyr bob amser yn glir ynglŷn â sut i wella'u medrau llythrennedd a rhifedd. Mae llawer o ddysgwyr yn siarad Cymraeg yn rhugl. Maent yn siarad Cymraeg fel mater o drefn mewn trafodaethau gyda thiwtoriaid a chyfoedion sy'n siarad Cymraeg, ond ychydig iawn ohonynt sy'n dewis cwblhau asesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol a pharchus gyda thiwtoriaid, aseswyr a'u cyfoedion. Mae llawer ohonynt yn datblygu hyder a hunan-barch gwell, sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n effeithiol â chwsmeriaid a chleientiaid. Mae bron pob un ohonynt yn myfyrio'n briodol ar eu profiadau dysgu a gwaith.

Mae gan ddarparwyr y Consortiwm berthnasoedd cryf iawn â chyflogwyr ledled y rhanbarth. Maent yn cynllunio rhaglenni'n dda i ddiwallu anghenion a bodloni blaenoriaethau lleol a rhanbarthol o ran medrau.

Mae bron pob un o'r tiwtoriaid a'r aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Mae ganddynt gymwysterau da yn eu meysydd arbenigol ac yn cadw eu gwybodaeth a'u medrau yn gyfoes. Maent yn hynod gefnogol o'u dysgwyr ac yn defnyddio'u profiad eu hunain yn dda i ddatblygu medrau galwedigaethol a dealltwriaeth dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn darparu adborth llafar ac ysgrifenedig amserol ac effeithiol i ddysgwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn rhy ddibynnol ar gyfarwyddyd gan diwtoriaid ac aseswyr.

Mae partneriaid y consortiwm yn gweithio'n arbennig o dda gyda'i gilydd i ddarparu cymorth cyson gryf ar gyfer lles ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Gall dysgwyr ar draws y consortiwm fanteisio ar adnoddau a gwasanaethau mewn amrywiaeth o safleoedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn canmol y cymorth a'r gefnogaeth a gânt gan diwtoriaid ac aseswyr sy'n gweithio'n hyblyg gyda dysgwyr i ddarparu ar gyfer amgylchiadau'r cartref a'r gwaith. Mae staff yn gweithio'n effeithiol i nodi a chefnogi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr.

Mae uwch arweinwyr ar draws y consortiwm yn wybodus am anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol o ran medrau. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol iawn o fewn trefniadau monitro ac adrodd strwythuredig. Mae gwerthoedd a nodau ar y cyd ar draws y consortiwm yn adlewyrchu dylanwad ac ymglymiad teg

partneriaid mewn prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau allweddol. Mae pob partner yn ymgymryd â gweithgareddau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant priodol ac fe gaiff meysydd tanberfformio eu nodi a'u herio'n rheolaidd ar lefel consortiwm. Mae staff o bob partner yn gwerthfawrogi'r cyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau datblygiad proffesiynol sy'n cynnwys pwyslais cryf ar sesiynau wedi'u harwain gan gyfoedion i rannu arfer effeithiol.

## Argymhellion

A1 Gwella cyfraddau llwyddiant a chwblhau amserol dysgwyr mewn rhaglenni a meysydd dysgu sy'n tanberfformio

A2 Sicrhau bod yr holl diwtoriaid ac aseswyr yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr yn gyson ym mhob maes dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos ar ei waith yn ymwneud â dysgu proffesiynol ar gyfer staff a chymorth cofleidiol ar gyfer dysgwyr, i'w lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos eu gallu i alw i gof gwybodaeth flaenorol a'u profiadau yn y gweithle yn gadarn. Mewn llawer o achosion, maent yn cymhwyso'r wybodaeth hon yn dda, yn enwedig wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau ymarferol. Mae mwyafrif y dysgwyr yn ymateb i gwestiynau'n hyderus ac yn defnyddio'r termau a'r ymadroddion technegol cywir. Nid oes gan ychydig ohonynt yr hyder i gyfrannu'n llawn at drafodaethau ac wrth ymateb i gwestiynau gan eu tiwtor a'u hasesydd.

Mae llawer o ddysgwyr wedi eu cymell i gyflawni eu prentisiaethau ac yn gweithio'n arbennig o dda gyda'u tiwtoriaid a'u haseswyr. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio'n hyderus mewn gweithgareddau un i un, gweithgareddau grŵp a gweithgareddau dysgu o bell.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig sydd wedi'i gyflwyno'n dda ac o safon sy'n briodol i'w rhaglen. Mae'r rhan fwyaf o waith sy'n cael ei gynhyrchu'n electronig o safon dda. Ym mwyafrif yr achosion, mae dysgwyr yn elwa ar gael adborth ysgrifenedig defnyddiol gan eu tiwtoriaid a'u haseswyr sy'n eu galluogi i wella'u perfformiad yn y dyfodol. Mewn ychydig o achosion, nid yw geiriau sy'n cael eu camsillafu gan ddysgwyr yn cael eu cywiro gan eu tiwtoriaid.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dangos medrau ymarferol cryf ar draws eu meysydd galwedigaethol. Maent yn defnyddio'r medrau hyn yn rheolaidd ac yn hyderus mewn ystod eang o leoliadau. Yn y gweithle, caiff dysgwyr gymorth ac arweiniad gan eu cyflogwyr sy'n annog datblygiad medrau newydd. Mae hyn yn helpu dysgwyr i fod yn aelodau cynhyrchiol a gwerthfawr o staff eu cyflogwyr. Er enghraifft, mae prentisiaid cynnal a chadw trydanol lefel 3 yn datblygu'r medrau i ymgymryd â thasgau cynnal a chadw cymhleth ar beiriannau gweithgynhyrchu uwch. Mae prentisiaid ynni lefel 3 yn gweithio mewn grwpiau bach i ymchwilio a chyflwyno eu canfyddiadau cynhwysfawr o osod a chynnal a chadw tyrbinau gwynt ar y môr. Ar draws y meysydd dysgu, mae dysgwyr yn myfyrio ar eu profiadau yn y gweithle yn dda ac yn defnyddio'r profiad hwn a'r wybodaeth hon i'w helpu i gwblhau ystod eang o dasgau ac asesiadau ymarferol yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'r cynnydd y maent yn ei wneud a pha asesiadau y mae angen iddynt eu gwneud i gwblhau eu dysgu. Yn yr achosion gorau, mae dysgwyr yn monitro'u cynnydd yn erbyn gofynion y rhaglen yn rheolaidd. Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn, ac yn cyfrannu at, adolygiadau cynnydd yn gynhyrchiol. Maent yn gweithio'n hyderus gyda'u haseswyr, ac yn yr achosion gorau, yn trafod ac yn gosod targedau i'w cwblhau o'u gwaith ysgrifenedig a'u hasesiadau eu hunain. Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt ac yn cyflawni eu prentisiaethau. Fodd bynnag, ar draws y consortiwm, mae ychydig o ddysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu prentisiaethau.

Yn dilyn eu hasesiad cychwynnol a diagnostig ar gyfer medrau llythrennedd, rhifedd a digidol, nid yw dysgwyr bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn y mae angen iddynt ei

wneud i wella'u medrau. Er bod dysgwyr yn gwneud cynnydd ac yn ennill eu cymwysterau medrau, ni chânt eu herio fel mater o drefn i wella'r agweddau hyn ymhellach, lle bo'n briodol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn defnyddio technoleg ddigidol yn dda wrth ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau dysgu. Gallant lywio platfformau dysgu digidol a'u portffolios electronig. Mae'r dysgwyr hyn yn gwneud defnydd effeithiol o'r adnoddau hyn i fynd at weithgareddau dysgu ar-lein a rhannu gwaith ac asesiadau ysgrifenedig gyda'u haseswyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at y Gymraeg. Mae llawer ohonynt yn siarad Cymraeg yn rhugl ac yn cynnal trafodaethau a sgyrsiau â'u hathrawon a'u cyfoedion yn Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae nifer a chyfran y dysgwyr sy'n dewis cwblhau eu hasesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn parhau'n isel.

Ar draws y consortiwm, mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr yn amrywio gormod yn dibynnu ar y maes dysgu. Mae cyfraddau llwyddiant dysgwyr mewn cyfrifyddiaeth a nyrsio milfeddygol yn gryf, ac mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cwblhau eu prentisiaethau mewn modd amserol. Mae lleiafrif o ddysgwyr ar raglenni iechyd a gofal cymdeithasol yn cwblhau eu prentisiaethau'n llwyddiannus.

Mae'r tarfu yn gysylltiedig â phandemig COVID-19 yn cael effaith negyddol o hyd ar gyfraddau llwyddiant prentisiaethau. Mae dysgwyr sydd gryn dipyn y tu hwnt i'w dyddiadau cwblhau disgwyliedig yn parhau i gael eu cynorthwyo gan y darparwr tuag at gwblhau eu prentisiaethau. At ei gilydd, mae gormod o ddysgwyr yn cymryd yn hirach na'r disgwyl i gwblhau eu prentisiaethau.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Bron ym mhob achos, mae dysgwyr yn datblygu perthynas gadarnhaol ac ymddiriedus â'u haseswyr a'u tiwtoriaid, ac maent yn fodlon rhannu unrhyw faterion yn gysylltiedig â'u lles eu hunain, p'un a yw hynny o natur academaidd, gwaith, neu les. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn teimlo'n ddiogel, yn saff, ac yn rhydd rhag aflonyddu yn eu hamgylcheddau dysgu a gweithle, ac yn gwybod sut i godi pryder pe bai'r angen yn codi.

Pan fydd angen, mae dysgwyr yn nodi effaith sefyllfaoedd anodd yn y gweithle, a strategaethau ar gyfer delio â nhw, ac yn disgrifio'r effaith a gaiff hyn ar eu lles yn glir. Er enghraifft, yn achos dysgwyr sy'n gweithio mewn canolfan cyngor ac arweiniad, maent yn rhannu effaith gweithio gyda chleientiaid sy'n wynebu sefyllfaoedd heriol a sut mae hyn yn ei dro yn effeithio ar eu lles eu hunain. Maent yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth a gânt mewn sefyllfaoedd o'r fath trwy'r cyflogwr a'r darparwr hyfforddiant, fel ei gilydd.

Mae ychydig o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu cael mynediad at brif safleoedd a gwasanaethau'r coleg, ac yn mwynhau'r buddion sy'n gysylltiedig â bod yn ddysgwr. Mae enghreifftiau'n cynnwys elwa ar wasanaeth cwnsela'r coleg, defnyddio cyfleusterau'r llyfrgell, a manteisio ar ostyngiadau i fyfyrwyr. Mae ychydig o ddysgwyr yn cael mynediad at, ac yn rhyngweithio, â'r hyb lles ar-lein a chylchlythyrau cysylltiedig. Maent yn nodi sut mae'r adnoddau hyn yn ddefnyddiol ar

lefel bersonol, ac o fewn eu lleoliadau gweithle ehangach. Fodd bynnag, nid yw llawer o ddysgwyr yn gyfarwydd â'r adnoddau hyn eto.

Caiff dysgwyr gyfleoedd helaeth i rannu eu safbwyntiau ar brofiadau dysgu trwy fecanweithiau ffurfiol fel arolygon llais y dysgwr, yn ogystal â thrwy lwybrau mwy anffurfiol, gan gynnwys deialog agored a gonest gyda thiwtoriaid ac aseswyr.

Mae llawer o ddysgwyr yn arddangos hyder a hunan-barch gwell sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n dda â'u cwsmeriaid a'u cleientiaid. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn myfyrio'n briodol ar eu dysgu a'u profiadau. Maent yn barod i roi enghreifftiau o sut maent yn cymhwyso'u dysgu o fewn eu gweithleoedd, ac i'r gwrthwyneb, yn dod â'u profiadau yn y gweithle i'r dysgu. Er enghraifft, mewn sesiwn technoleg bwyd, mae dysgwr mewn rôl oruchwylio yn cydnabod bod y medrau a enillodd ar ei chwrs yn ei galluogi i reoli aelod anghydweithredol o'i thîm yn llwyddiannus. Yn yr un modd, mae dysgwr mewn lleoliad gofal preswyl yn disgrifio sut mae hi wedi datblygu strategaeth i gynorthwyo claf sydd wedi cael strôc â heriau cyfathrebu, ac mae'n cymhwyso'r wybodaeth hon a'r profiad hwn yn briodol i'r uned y mae'n gweithio arni.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud penderfyniadau priodol am eu dysgu ac yn ymateb yn gadarnhaol i gael dewisiadau yn eu dysgu. Maent yn darparu rhesymegau clir ar gyfer penderfyniadau ar ba dasgau y maent yn eu gwneud a sut maent yn mynd ati i wneud eu gwaith. Maent yn trafod terfynau amser realistig yn llwyddiannus, ac mewn sesiynau adolygu cynnydd, yn gofyn cwestiynau ac yn gwirio dealltwriaeth lle bo'n briodol. Mae llawer o ddysgwyr yn canolbwyntio ar atebion o ran eu dull. Er enghraifft, mae dysgwyr sy'n gweithio mewn canolfan cyngor ac arweiniad yn awgrymu ffyrdd o gyflwyno gwaith a fydd yn osgoi unrhyw achosion o dorri rheolau cyfrinachedd.

Mae bron pob un o'r dysgwyr mewn lleoliadau grŵp yn parchu ei gilydd ac yn gwerthfawrogi'r cyfraniadau gan gyfoedion i brofiadau dysgu cyffredinol. Maent yn gwrando'n weithredol, yn dangos diddordeb, yn gofyn cwestiynau i'w gilydd, yn parchu ei gilydd trwy gymryd eu tro ac yn ymateb yn briodol. Er enghraifft, mewn sesiwn cyfrifyddiaeth, mae dysgwr yn rhannu sut mae'n cofnodi croniadau yn ei gweithle gyda grŵp o'i chyfoedion sy'n awyddus i ddysgu o'i phrofiadau.

### Addysgu, hyfforddi, asesu a phrofiadau dysgu

Mae'r consortiwm yn cynllunio'r ffordd mae'n cyflwyno rhaglenni yn dda i ddiwallu anghenion y rhanbarth. Mae'r darparwr arweiniol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid ac is-gontractwyr i sicrhau arlwy cynhwysfawr, sy'n adlewyrchu blaenoriaethau medrau rhanbarthol ynghyd ag anghenion cyflogwyr lleol ar draws ardal ddaearyddol fawr.

Mae perthynas y consortiwm â chyflogwyr ar draws y rhanbarth yn arbennig o gryf. Mae hyn yn ei alluogi i gydweithio â chyflogwyr i gynllunio rhaglenni sydd wedi'u teilwra i'w hanghenion penodol yn ogystal â bod o fudd i'r sylfaen cyflogwyr ehangach. Enghraifft o'r berthynas hon yw pan oedd angen i gwmni peirianneg hyfforddi ei gyflogeion ar fedrau llaw penodol. I sicrhau bod y wybodaeth a'r medrau cywir yn cael eu cynnwys yn y rhaglen hyfforddi, gweithiodd tiwtoriaid yn agos â'r cyflogwr ar ymweliadau ar y cyd â sefydliadau eraill i nodi arfer effeithiol ar draws y sector. Cynigiwyd yr hyfforddiant medrau penodol yn ddiweddarach i ddysgwyr

peirianneg eraill o fewn y consortiwm, i’w huwchsgilio ar gyfer cyfleoedd swyddi yn y dyfodol.

Mae cyflogwyr yn gwerthfawrogi ymatebolrwydd y darparwyr hyfforddiant a hyblygrwydd yr arlwy ar draws y consortiwm. Mae hyn yn eu galluogi i ddewis y lleoliad ar gyfer eu gweithgareddau hyfforddi a’r model cyflwyno mwyaf priodol. Un enghraifft o’r perthnasoedd gweithio hyn sy’n effeithiol ac yn fuddiol i’r ddwy ochr, yw pan mae cyflogwyr hefyd yn cynnig cyfleoedd profiad gwaith a hyfforddi i diwtoriaid ac aseswyr. Mae hyn yn helpu sicrhau bod staff y darparwyr yn gyfarwydd â’r technolegau mwyaf newydd a medrau cysylltiedig.

Bron ym mhob achos, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn adnabod eu dysgwyr yn dda ac wedi sefydlu perthynas dda, sy’n arwain at ymgysylltu gwell a dealltwriaeth ar y ddwy ochr. Mae ganddynt gymwysterau da o fewn eu meysydd arbenigol ac maent yn diweddaru eu medrau a’u gwybodaeth. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn hynod gefnogol i’w dysgwyr ac yn manteisio ar eu profiad diwydiannol a masnachol eu hunain i ddatblygu dealltwriaeth a medrau galwedigaethol dysgwyr.

Yn yr achosion gorau, mae gan diwtoriaid ddisgwyliadau uchel o’u dysgwyr. Mewn ychydig o sesiynau ymarferol, er enghraifft mewn gweithgareddau brics lefel 3, mae tiwtoriaid yn herio ac yn annog dysgwyr i gynhyrchu gwaith o ansawdd uchel a gyda goddefgarwch agos.

Mae llawer o aseswyr yn annog eu dysgwyr i fyfyrio ar eu harferion eu hunain a thrafod eu dewis o asesiadau, targedau a therfynau amser ar gyfer cwblhau gwaith ysgrifenedig ac asesiadau gweithle. Mewn lleiafrif o achosion, caiff sesiynau addysgu ac adolygu eu harwain gan y tiwtor neu’r asesydd yn bennaf, gyda chyfleoedd annigonol i ddysgwyr gymryd yr awenau mewn trafodaethau. O ganlyniad, mae ychydig o ddysgwyr ar raglenni prentisiaeth a phrentisiaeth uwch yn rhy ddibynnol ar gyfarwyddyd gan eu tiwtoriaid a’u haseswyr.

Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio ystod eang o dechnegau holi, gan gynnwys cwestiynau agored a chyfeiriedig. Ym mwyafrif yr achosion, mae tiwtoriaid yn defnyddio cwestiynau targedig i wirio gwybodaeth a dealltwriaeth ac atgyfnerthu gwybodaeth flaenorol. Mae llawer o diwtoriaid yn defnyddio profiadau’r dysgwyr eu hunain yn y gweithle yn dda i ategu theori. Mewn lleiafrif o achosion, mae tiwtoriaid ac aseswyr yn dibynnu’n ormodol ar ofyn cwestiynau nad ydynt yn datblygu gwybodaeth a galluoedd dysgwyr, ac nid ydynt yn herio dysgwyr i gyrraedd eu llawn botensial.

Yn y rhan fwyaf o achosion, mae tiwtoriaid yn cynnig adborth ysgrifenedig a llafar prydlon ac ystyrlon i’w dysgwyr i ddatblygu eu medrau a’u dealltwriaeth. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, ni chaiff gwaith dysgwyr ei anodi’n ddigon effeithiol i alluogi dysgwyr i ddefnyddio adborth i ddatblygu eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth ymhellach.

Mewn lleoliadau galwedigaethol, nid yw datblygiad medrau ehangach llythrennedd, rhifedd a llythrennedd digidol wedi’u hymgorffori’n llawn. Er bod tystiolaeth o ddefnyddio llythrennedd a rhifedd ym mwyafrif yr adolygiadau, ceir adborth cyfyngedig ar waith a gyflwynir neu ar osod targedau ystyrlon i ddysgwyr ddatblygu’r medrau hyn trwy gydol cyfnod eu rhaglen ddysgu.

Mae nifer fawr o diwtoriaid, aseswyr a dysgwyr yn siarad Cymraeg yn ardal y consortiwm, yn enwedig yng ngorllewin y rhanbarth. Mae tiwtoriaid ac aseswyr yn annog eu dysgwyr i siarad Cymraeg yn y gweithle ac yn eu hadolygiadau cynnydd, er nad oes digon o ddysgwyr yn dewis cwblhau asesiadau yn Gymraeg. Mae'r coleg yn darparu'r cyfle i'w diwtoriaid ddysgu Cymraeg ac yn cydnabod a dathlu eu cynnydd a'u cyflawniadau.

### Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae partneriaid y consortiwm yn rhannu eu harferion ac yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau cymorth cyson gryf ar gyfer lles ac anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr. Trefnir bod adnoddau a gwasanaethau mewn canolfannau gwahanol ar gael i'r holl ddysgwyr prentisiaeth ar draws y consortiwm.

Gall pob un o'r prentisiaid wneud cais am gerdyn myfyriwr sy'n rhoi mynediad llawn iddynt i gyfleusterau ar y campws, fel canolfannau adnoddau dysgu a champfeydd, yn ogystal â chymhwystra ar gyfer gostyngiadau myfyrwyr. Cynigir mynediad i'r holl ddysgwyr at adnoddau lles ac arweiniad buddiol, hefyd. Yn ddiweddar, mae hyb lles ar-lein y consortiwm wedi cael ei wneud yn fwy hygyrch a'i hyrwyddo ymhlith prentisiaid. Mae cymorth personol gwerthfawr, gan gynnwys cwnsela, hefyd ar waith i gynorthwyo dysgwyr sy'n cael eu cyfeirio gan staff y consortiwm.

Mae partneriaid sy'n ddarparwyr yn sicrhau bod dysgwyr ar draws y consortiwm yn cael eu cyflenwi â'r adnoddau sydd eu hangen arnynt i gynorthwyo'u dysgu. Er enghraifft, mae dysgwyr heb ddyfeisiau digidol addas yn derbyn gliniadur a 'dongle' rhyngrwyd ar fenthyciad tymor hir. Yn ychwanegol, mae cymorth ymarferol ar gyfer lles dysgwyr yn cynnwys cynhyrchion mislif am ddim a bwyd am ddim yn holl ganolfannau darparwyr. Mae'r cymorth hwn yn helpu lliniaru effeithiau negyddol y cynnydd mewn costau byw ar ddysgwyr yn rhannol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi'r cymorth a'r arweiniad ehangach a gânt gan aseswyr. Mewn cyfarfodydd un i un rheolaidd, mae'r rhan fwyaf o aseswyr yn rhoi cymorth ystyriol i ddysgwyr, gan wirio eu lles yn rheolaidd mewn ffordd sy'n ystyrlon i bob dysgwr unigol. Mae aseswyr a thiwtoriaid yn gweithio'n hyblyg i ddarparu ar gyfer amgylchiadau dysgwyr yn y cartref ac yn y gwaith. Pan fo'n briodol, maent yn rhoi dewis i ddysgwyr ymgysylltu ag adolygiadau a sesiynau cymorth yn y gweithle, mewn canolfannau dysgu, neu ar-lein.

Caiff themâu trawsbynciol eu hintegreiddio fel nodwedd sefydledig a gwerth chweil o gyfarfodydd adolygu cynnydd rheolaidd un i un rhwng aseswyr a dysgwyr. Cânt eu cynorthwyo gan ystod o adnoddau ysgogol ar destunau sy'n cynnwys cydraddoldeb, mewnfudo, anabledd, perthnasoedd iach, iechyd meddwl ac atal radicaleiddio. Mewn ychydig o achosion, mae dysgwyr ac aseswyr yn ei chael yn anodd ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon yn y trafodaethau hyn, neu nid yw aseswyr yn achub ar gyfleoedd i integreiddio'r testunau hyn mewn gweithgareddau dysgu ehangach.

Mae'r darparwr yn gweithio'n effeithiol i nodi anghenion dysgu ychwanegol dysgwyr unigol. Mae cyfran dysgwyr y consortiwm y nodwyd bod ganddynt angen dysgu ychwanegol wedi cynyddu'n sylweddol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae aseswyr wedi eu hyfforddi i nodi a chynorthwyo dysgwyr ag anghenion amrywiol fel cyflwr y sbectrwm awtistig, yn ogystal ag anawsterau dysgu eraill fel dyslecsia a dyspracsia.

Mae arbenigwyr yn y darparwr ac mewn prifysgol gyfagos yn asesu anghenion dysgu dysgwyr prentisiaeth sy'n cael eu cyfeirio atynt. Mae'r darparwr yn rhoi cymorth ac addasiadau buddiol ar waith. Hefyd, mae'n defnyddio ystod o wasanaethau allanol ac yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddarparu cymorth ychwanegol i ddysgwyr prentisiaeth.

Mae'r darparwr wedi datblygu fframwaith diogelu a ystyriwyd yn ofalus y mae pob un o'r partneriaid wedi tanysgrifio iddo. Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais y mae arweinwyr yn ei roi ar ddiogelu ac ethos cydweithredol cryf ymagwedd y consortiwm at amddiffyn dysgwyr. Mae staff yn ymgymryd â hyfforddiant diogelu cychwynnol a diweddaru yn dibynnu ar eu rôl a lefel eu cyfrifoldeb. Mae bron pob aelod o staff yn hyderus eu bod yn gwbl ymwybodol o'r gweithdrefnau ar gyfer diogelu dysgwyr ac yn deall sut i'w cymhwyso.

Mae systemau priodol ar gyfer nodi ac olrhain pryderon ynghylch diogelu ar waith ar draws y consortiwm. Mae cydweithio rhwng gwasanaethau cymorth diogelu partneriaid y consortiwm yn sicrhau bod cymorth arbenigol ar waith pan fydd angen. Mae arweinwyr diogelu'r darparwr yn monitro ac yn adrodd ar bryderon ynghylch diogelu ac ymyriadau i uwch reolwyr yn rheolaidd, gan eu galluogi i oruchwylio cynnydd a sicrhau atebolrwydd. Yn ychwanegol, mae'r consortiwm yn myfyrio ar faterion diogelu, ac yn eu dadansoddi, bob blwyddyn. Mae'r consortiwm wedi adolygu ei drefniadau Atal yn briodol i atal radicaleiddio.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae Grŵp Llandrillo Menai yn arwain consortiwm sefydledig yn seiliedig ar fodel cadarn o bartneriaeth dwy haen, sy'n adlewyrchu'n glir anghenion a nodwyd o fewn yr economi leol a rhanbarthol. Mae'r consortiwm yn cynnwys trefniadau partneriaeth ac is-gontractio ar draws nifer fach o ddarparwyr. Mae trefniadau'r consortiwm wedi'u strwythuro'n dda gyda chyfrifoldebau'n cael eu nodi'n glir. Cefnogir hyn gan drefniadau monitro ac adrodd priodol.

Mae uwch arweinwyr ar draws y consortiwm yn wybodus am flaenoriaethau lleol ac anghenion medrau sy'n dod i'r amlwg neu'n newid. Cefnogir hyn trwy gynrychiolaeth briodol mewn partneriaethau medrau rhanbarthol a fforymau rhanbarthol eraill. Er enghraifft, mae datblygu academi ddigidol werdd yn hwyluso cydweithio â chyflogwyr lleol i fynd i'r afael ag anghenion medrau sy'n esblygu. Mae'r darparwr wedi datblygu canolfan technoleg bwyd hefyd, sy'n cynnal technegau ymchwil ac arloesi ar gyfer cyflogwyr prosesu bwyd lleol.

Mae aelodau'r consortiwm yn dangos diwylliant cryf o werthoedd ar y cyd, sy'n ategu perthnasoedd parchus rhwng yr holl bartneriaid. Mae nodau ar y cyd ar draws partneriaid y consortiwm yn adlewyrchu dylanwad ac ymglymiad teg partneriaid mewn prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau strategol trosfwaol. Mae'r rhan fwyaf o staff ar draws y consortiwm yn deall blaenoriaethau strategol y darparwr ac yn gwybod beth y gallant ei wneud i gyfrannu tuag at gyflawni'r rhain.

Mae blaenoriaethau strategol y consortiwm yn cysylltu'n briodol ac yn llywio cynllunio gweithredol ar draws yr holl bartneriaid. Mae hyn yn helpu darparu cyfleoedd dysgu a chynnydd i ddysgwyr a chyflogwyr elwa ar gryfderau cyflwyno partneriaid unigol.

Adlewyrchir aeddfedrwydd y perthnasoedd trwy gystadleuaeth a dewis iach ar draws partneriaid ochr yn ochr â chydweithio buddiol ar y ddwy ochr rhyngddynt.

Mae dysgwyr a staff yn elwa ar gael mynediad at ystod o systemau ar-lein wedi'u datblygu a'u darparu gan y darparwr arweiniol. Mae partneriaid hefyd yn mwynhau'r cyfle i fanteisio ar gymorth â chyflwyno darpariaeth medrau hanfodol a chymorth arbenigol ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol, lle mae angen. Mae hyn yn sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer dysgwyr a staff ar draws y consortiwm.

Mae pob un o'r partneriaid yn cynnal gweithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain, monitro ac adrodd am gynnydd dysgwyr fel rhan o'u trefniadau sicrhau ansawdd a rheoli perfformiad. Mae dangosfyrddau data yn darparu data amser real tryloyw ar gyfer staff a rheolwyr i fonitro ac adolygu perfformiad ar bob lefel.

Caiff meysydd sy'n tanberfformio eu nodi a'u herio ar draws darparwyr partner sy'n dwyn ei gilydd i gyfrif am unrhyw bryderon ynghylch perfformiad. Er enghraifft, mae ffocws clir ar bob lefel o'r consortiwm ar fynd i'r afael â'r anawsterau a brofir yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol ar ôl pandemig COVID-19 yn ddiweddar.

Mae tanberfformio diweddar yn erbyn trothwyon ansawdd wedi sbarduno gweithgareddau archwilio ansawdd ac arolygu mewnol. Mae hyn yn cynnwys yr holl bartneriaid, gan gynnwys y rhai nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â chyflwyno'r rhaglenni hyn, sy'n dangos ymhellach fod ymrwymiad cynhwysol i werthoedd ar y cyd ar draws y consortiwm. O ganlyniad, mae uwch arweinwyr wedi gallu nodi problemau sylfaenol sy'n achosi tanberfformio, ac yn cytuno ar gynllun ar gyfer gwella.

Mae pob un o bartneriaid y consortiwm yn cwblhau gweithgareddau hunanasesu, a ddefnyddir i lywio nodi cryfderau allweddol a meysydd i'w gwella a adlewyrchir mewn cynlluniau gwella ansawdd.

Mae cynllunio dysgu proffesiynol blynyddol yn ystyried anghenion medrau a nodwyd trwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys arfarniadau, arsylwadau aseswyr, adborth dysgwyr a chyflogwyr. Mae hyn yn helpu sicrhau yr eir i'r afael â bylchau mewn medrau a meysydd i'w datblygu. Mae'r holl bartneriaid yn nodi ac yn rhannu enghreifftiau o arfer dda ar draws y consortiwm i gefnogi gwelliant parhaus mewn perfformiad cyffredinol.

Mae staff o'r holl bartneriaid yn mynychu diwrnodau datblygiad proffesiynol y consortiwm bob dwy flynedd, gyda phwyslais cryf ar sesiynau wedi'u harwain gan gymheiriaid i rannu arfer orau. Er enghraifft, roedd y digwyddiad diweddaraf yn cynnwys gweithgareddau i alluogi pob un o'r staff i nodi a hwyluso darparu cymorth, sy'n gweddu i anghenion ychwanegol unigol y dysgwyr.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i ddysgwyr a'r holiadur i gyflogwyr, ac yn ystyried barn athrawon, hyfforddwyr ac aseswyr trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod â'r pennaeth / prif weithredwr, llywodraethwyr (lle bo'n briodol), uwch reolwyr a rheolwyr canol ac athrawon unigol, hyfforddwyr ac aseswyr i werthuso effaith gwaith y darparwr
- yn cyfarfod â dysgwyr i drafod eu gwaith, gwrando arnynt a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu darparwr
- yn ymweld â sampl eang o sesiynau, gan gynnwys sesiynau i ffwrdd o'r gwaith, sesiynau theori a sesiynau hyfforddi ymarferol
- yn ymweld ag ystod eang o ddysgwyr yn eu gweithleoedd i arsylwi eu medrau gweithle, arsylwi asesiadau, adolygu eu gwaith theori a chyfarfod â'u cyflogwyr
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r darparwr
- yn ystyried cynllun gwella ansawdd y darparwr ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda mae'r darparwr wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth eang o ddogfennau'r darparwr, gan gynnwys gwybodaeth am asesu, olrhain a chynnydd dysgwyr, cofnodion cyfarfodydd rheolwyr a staff, cyfarfodydd ag is-gontractwyr a phartneriaid allweddol a chyfarfodydd â chyflogwyr, gwybodaeth am les dysgwyr, gan gynnwys diogelu dysgwyr, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, bu Estyn:

- yn adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y bartneriaeth ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2023